Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

*National Institute for Health and Clinical Excellence*

# Pemetrexed fel triniaeth gynnal ar gyfer canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach

*Mae 'canllawiau arfarnu technoleg' NICE yn rhoi cyngor ar sut a phryd y dylid defnyddio cyffuriau a thriniaethau eraill yn y GIG*

Mae'r daflen hon yn egluro pryd y dylid defnyddio **pemetrexed** i drin pobl sydd â chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach yn y GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol). Cafodd ei hysgrifennu ar gyfer pobl sydd â chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach ond gallai hefyd fod yn ddefnyddiol i'w teuluoedd neu ofalwyr neu unrhyw un sydd â diddordeb yn y cyflwr.

Nid yw'n disgrifio canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach na'r triniaethau yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd drafod y rhain gyda chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth gan y sefydliadau a restrir ar y dudalen gefn.

*Efallai nad hwn yw'r unig opsiwn posibl ar gyfer canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau eraill sydd ar gael.*

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Mae NICE yn argymell pemetrexed fel triniaeth gynnal bosibl i rai pobl sydd â chanser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach (gweler isod).

### Pwy all gael pemetrexed?

Dylech allu cael pemetrexed os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- mae gennych ganser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach ac sy'n ddatblygedig yn lleol neu ganser metastatig yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach
- nid carsinoma celloedd cennog yw'r prif fath o ganser sydd gennych
- nid ydych wedi cael pemetrexed a cisplatin gyda'i gilydd fel triniaeth gyntaf
- ni wnaeth eich cyflwr waethygu ar unwaith ar ôl i chi gael cemotherapi yn seiliedig ar blatinwm ynghyd â gemcitabine, paclitaxel neu docetaxel.

### Pam fod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar ba mor dda y mae triniaethau yn gweithio yn ogystal â pha mor dda y maent yn gweithio mewn perthynas â'u cost i'r GIG. Mae NICE yn rhoi ystyriaeth arbennig i driniaethau a all ymestyn bywydau pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes.  Mae NICE wedi argymell pemetrexed oherwydd caiff ei gost ei chyfiawnhau gan ei fanteision ar ôl pwyso a mesur yr ystyriaethau arbennig.

## Canser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach

Caiff canser sy'n effeithio ar yr ysgyfaint ei rannu'n ddau brif fath yn dibynnu ar sut y mae'n edrych o dan y microsgop: canser yr ysgyfaint â chelloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach. Mae tri math o ganser yr ysgyfaint lle nad yw’r celloedd yn fach: canser carsinoma celloedd cennog, adenocarsinoma a charsinoma celloedd mawr.

Mae canser a gaiff ei ddisgrifio fel un sy’n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig wedi lledaenu i'r meinweoedd cyfagos neu rannau eraill o'r corff.

## Pemetrexed

Mae pemetrexed (a elwir hefyd yn Alimta) yn gyffur gwrth-ganser. Mae'n gweithio drwy ymyrryd ag ensym sydd ei angen ar gelloedd canser i oroesi a lluosi, felly mae pemetrexed yn rhwystro'r canser rhag tyfu.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan fydd NICE yn argymell triniaeth, rhaid i’r GIG sicrhau ei bod ar gael i’r bobl hynny y gallai eu helpu, a hynny fel arfer o fewn tri mis i gyhoeddi’r canllawiau.

Felly, os oes gennych ganser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach, a bod eich meddyg a chi yn credu mai pemetrexed yw’r driniaeth gywir i chi (gweler 'Beth y mae NICE wedi'i ddweud?' ar dudalen 2), dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Gweler www.nice.org.uk/aboutguidance os ydych o'r farn eich bod yn gymwys i gael y driniaeth ond nad yw ar gael.

## Rhagor o wybodaeth

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o wybodaeth a chymorth i bobl sydd â chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

- CancerHelp y DU (gwefan gwybodaeth i gleifion Ymchwil Canser y DU), 0808 800 4040, www.cancerhelp.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000, www.macmillan.org.uk/
- The Roy Castle Lung Cancer Foundation, 0800 358 7200 www.roycastle.org

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.  Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi. Os ydych yn byw yng Nghymru dylech siarad â Galw Iechyd Cymru i gael gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw.

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am yr afiechyd a'r triniaethau, barn cleifion a gofalwyr a phrofiadau meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac yn ystyried y costau sydd ynghlwm. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon a fersiynau eraill o'r canllawiau a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/TA190*

*Rydym yn annog y GIG a sefydliadau gwirfoddol i ddefnyddio testun o'r daflen hon yn eu gwybodaeth eu hunain am ganser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-84936-319-8
N2263 POD 1P June 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.